

Annwyl Cyfarwyddwr

Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Ceredigion yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan ein harolygiad a'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn.

- Adolygiad o hunanasesiad plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (Ionawr 2018) a'r cyfarfod her dilynol a gynhaliwyd â swyddogion ym mis Ebrill 2018.
- Gweithgarwch ymgysylltu â phlant a gofalywyr, a thrafodaethau â'r awdurdod lleol fel rhan o'r rhaglen thematig ar blant sy'n derbyn gofal.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Adolygiad o adroddiad hunanwerthuso yr awdurdod lleol o ran hyrwyddo annibyniaeth ac atal anghenion oedolion hŷn (65+ oed) rhag gwaethygu.
- Gweithgaredd â ffocws a gynhaliwyd yng ngwasanaethau plant ac oedolion yr awdurdod lleol.
- Arolygiad AGIC ac AGC o dimau iechyd meddwl cymunedol.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 9 Ebrill 2019.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion dîm profiadol o uwch-reolwyr yn y gwasanaethau plant ac oedolion sydd â dealltwriaeth dda o gryfderau'r adran a'i meysydd i'w gwella. Caiff hyn ei gefnogi drwy weithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol mewn modd cadarnhaol i nodi a datblygu gwasanaethau wedi'i lywio gan ymgynghoriadau a'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgymryd â chynllun ailstrwythuro a thrawsnewid corfforaethol ar hyn o bryd i ymdrin â'r heriau cyllidebol parhaus ac i gyflwyno gwasanaethau cynaliadwy.

Mae'r pedwar awdurdod lleol yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin wedi mabwysiadu'r fframwaith Arwyddion Diogelwch. Clywsom fod Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio'n gydweithredol ar weithredu a datblygu'r fframwaith hwn er mwyn hyrwyddo cysondeb ymhlith gwasanaethau ar draws y rhanbarth ac mae wedi penderfynu mabwysiadu'r fframwaith ar gyfer y gwasanaethau oedolion a phlant. Cawsom gyfle i drafod y ffordd y mae arfer yn newid gyda'r Cadeiryddion Annibynnol ar gyfer Amddiffyn Plant a chawsom wybod bod yr holl staff a'r partneriaid yn croesawu'r model gweithredu newydd.

Gwelsom fod y model gweithredu newydd yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014 yn y ffordd y mae'n rhoi pobl wrth wraidd yr hyn y mae'r awdurdod yn ei wneud, gan ganolbwyntio'n benodol ar gydgyhyrchu, atal a datblygu atebion sy'n canolbwyntio ar y person.

Yn ystod ein gweithgaredd â ffocws, cyfarfuom â rheolwyr ac ymarferwyr o'r gwasanaethau plant a chlywsom pa wahaniaeth roedd y ffyrdd newydd o weithio yn ei wneud i blant a'r ffaith bod plant a phobl ifanc yn gallu aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd. Gwelsom staff rheng flaen uchel eu cymhelliant yn y gwasanaethau plant ac oedolion a oedd yn trin pobl â pharch ac a oedd yn frwdfrydig ac yn deall y weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth.

- Pobl – llais a rheolaeth

Roedd pwysigrwydd sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a'r fframwaith strategol "Mwy na Geiriau" yn amlwg, gyda'r cynnig rhagweithiol wedi'i ymgorffori'n llawn. Mae'n gadarnhaol clywed bod yr awdurdod lleol yn datblygu dogfennaeth ddwyieithog er mwyn galluogi ei weithlu i weithio'n ddwyieithog gyda chymorth archwiliad o'r Gymraeg yn y gweithle ac ystod o gyfleoedd hyfforddiant i gefnogi'r iaith a chynyddu ymwybyddiaeth ohoni.

Mae gan yr awdurdod lleol weithlu profiadol a sefydlog. Mae recriwtio a chadw staff yn faes a gydnabyddir fel un sy'n hanfodol i fusnes ac mae'r awdurdod lleol yn y sefyllfa ffodus o allu recriwtio pobl i swyddi gwaith cymdeithasol a chefnogi staff i gyflawni cymwysterau gwaith cymdeithasol. Fodd bynnag, mae cynnal gweithlu sefydlog yn gallu bod yn her yn sgil newidiadau i'r strwythur. Un maes blaenoriaeth strategol i'r awdurdod lleol yw cryfhau ei broses arfarnu ynghyd â gwaith ailstrwythuro corfforaethol parhaus.

Cydnabyddir bod lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel yn flaenoriaeth ac mae'r awdurdod lleol yn gwerthuso effeithiolrwydd ei strategaethau rheoli risgiau ac atal gyda'i asiantaethau partner yn rheolaidd er mwyn rhagfynegi anghenion o ran adnoddau, lleoliadau a'r gweithlu nawr ac yn y dyfodol. Mae angen cryfhau'r gwasanaethau maethu a threfniadau comisiynu er mwyn ateb y galw ac osgoi sefyllfaoedd lle gall plant gael eu rhoi mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio.

Roedd y plant a'r gofalwyr maeth y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y cymorth maent yn ei gael ar y cyfan. Disgrifiwyd gweithwyr cymdeithasol fel 'super' a nodwyd bod rhywun ar ben arall y ffôn bob amser. Dywedodd pobl ifanc fod yr awdurdod lleol wedi ceisio'i orau i'w helpu a'u cadw'n ddiogel. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod am i'r awdurdod lleol fod yn onest gyda nhw ac i beidio ag osgoi dweud pethau wrthynt, ac yr hoffent weld llai o newid gweithwyr cymdeithasol.

Mae'r amrywiaeth sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a oedd yn cael ymweliadau o fewn yr amserlenni gofynnol wedi arwain at weithgarwch gwella wedi'i dargedu gan yr awdurdod lleol. Mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol yn parhau i geisio sicrwydd bod yr holl blant sy'n derbyn gofal a chymorth yn cael eu gweld yn rheolaidd a'u bod yn cael eu cefnogi.

Clywsom am y ffordd y mae cynllun y Gronfa Gofalwyr wedi cefnogi gofalwyr a chynnig cymorth i bobl mewn argyfwng. Mae'n gadarnhaol gweld datblygiad y maes gwasanaeth gofalwyr a bod cynnig i gryfhau'r ddarpariaeth y tu allan i oriau yn cael ei ystyried.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i hyrwyddo atal, ymyrryd yn gynnar a sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi'n well i gyflawni eu canlyniadau personol eu hunain. Mae uwch-reolwyr wedi gweithio'n dda gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddatblygu gwasanaeth amlasiantaeth ar gyfer y rheini y mae angen gwybodaeth, cyngor a chymorth arnynt. Gwelsom ymrwymiad i ddatblygu DEWIS a chlywsom am y ffordd y mae'r Cysylltwyr Cymunedol yn cynorthwyo gyda hyn a'r bwriad i gynnwys DEWIS ar wefan yr awdurdod lleol.

Clywsom am ddatblygiad cadarnhaol Porth y Gymuned fel gwasanaeth pob oed sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth 1:1 i gynorthwyo pobl i ddod o hyd i gymorth priodol ar y cyfle cynharaf.

Gwelsom fod yr awdurdod lleol yn sefydliad dysgu, er enghraifft drwy geisio cyfleoedd i ymweld ag awdurdodau lleol eraill yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn ei helpu i wella'n barhaus.

Roedd yr awdurdod lleol yn wynebu heriau gydag argaeledd cymorth cartref i bobl sy'n byw'n annibynnol gartref. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod pobl a gefnogir drwy ofal cartref yn ddiweddarach yn eu bywyd, sydd â mwy o anghenion, sy'n dymuno byw'n annibynnol yn eu cymuned eu hunain ac mae'n gweithio ar wella ei berfformiad yn y maes hwn.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Gwnaethom ymweld â Phorth Gofal, gwasanaeth gwybodaeth, cymorth a chyngor integredig a gynhelir mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, y trydydd sector ac asiantaethau statudol eraill. Mae hyn yn galluogi'r sefydliadau i rannu gwybodaeth a helpu i wneud penderfyniadau gwybodus gan ddarparu mynediad mwy cyson a chydlynol at ofal a chymorth a hynny'n amserol.

Roedd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth yn amlwg. Gwelsom dystiolaeth o gydberthynas waith gadarnhaol rhwng y gwasanaethau plant ac oedolion a chydag adrannau eraill yn yr awdurdod lleol, ynghyd â thystiolaeth o'r awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid statudol a'r trydydd sector ar lefel leol a rhanbarthol.

Clywsom fod Cyngor Sir Ceredigion wedi cyfrannu at ddatblygu'r Canllaw ynghylch Trothwy Diogelu Oedolion, dogfen a ddatblygwyd gan CWMPAS sef Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru. Clywsom fod y ddogfen trothwy wedi cael ei datblygu er mwyn sicrhau bod ymateb cyfunol i gadw pobl yn ddiogel yn briodol ac yn gymesur i'r cam-drin/esgeulustod a nodwyd, neu'r perygl ohono. Gwnaethom drafod yr enghreifftiau yn y canllaw a manteision ffurflen a phroses adrodd wahanol ar gyfer pryderon darparwyr.

Cynhaliom ddeuddydd o weithgareddau â ffocws yng ngwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol yr awdurdod lleol a gwelsom weithio mewn partneriaeth gweithredol da. Clywsom am yr her o gael mynediad at adnoddau a'r agenda drawsnewid yn y gwasanaeth hwn er mwyn galluogi pobl i gael cymorth yn eu cymunedau eu hunain. Cafodd yr awdurdod lleol arolygiad ar y cyd gan AGIC ac AGC ym mis Tachwedd 2018 a nododd fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol gyda'r angen i ganolbwyntio ar

gydymffurfio â'r holl Safonau Iechyd a Gofal (2015) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Canfu'r arolygiad bod dull amlddisgyblaeth da ar waith ar gyfer asesu, cynllunio gofal ac adolygu er mwyn sicrhau canlyniadau da i bobl. Roedd cynlluniau gofal yn seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar adfer. Dangosodd y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Tîm Triniaeth Gartref Datrys Argyfwng gydberthnasau gwaith cadarnhaol.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn, ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabwliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Byddwn yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cynnwys canolbwyntio ar yr adolygiadau o ansawdd gofal a chynlluniau cymorth i blant a phobl ifanc ac ar ansawdd y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn